

Cofnodion a phapurau cyfarfod o'r Cabinet

Yn bresennol:

- Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AC, y Prif Weinidog (Cadeirydd)
 - Rebecca Evans AC
 - Vaughan Gething AC
 - Lesley Griffiths AC
 - Julie James AC
 - Eluned Morgan AC
 - Kirsty Williams AC
 - Jeremy Miles AC
 - Jane Hutt AC
-
- Julie Morgan AC (eitem 5)
-
- Shan Morgan, yr Ysgrifennydd Parhaol
 - Des Clifford, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Swyddfa'r Prif Weinidog
 - Peter Greening, Pennaeth Is-adran y Cabinet
 - Toby Mason, Pennaeth Cyfathrebu Strategol
 - Jo Salway, Dirprwy Gyfarwyddwr Swyddfa'r Cabinet
 - Jane Runeckles, Cyngorydd Arbennig
 - David Davies, Cyngorydd Arbennig
 - Dan Butler, Cyngorydd Arbennig
 - Paul Griffiths, Cyngorydd Arbennig
 - Clare Jenkins, Cyngorydd Arbennig
 - Andrew Johnson, Cyngorydd Arbennig

- Gareth Williams, Cynghorydd Arbennig
- Tom Woodward, Cynghorydd Arbennig
- Christopher W Morgan, Ysgrifenyddiaeth y Cabinet (cofnodion)
- Damian Roche, Ysgrifenyddiaeth y Cabinet
- Piers Bisson, Cyfarwyddwr, Trefniadau Pontio Ewropeaidd (eitem 4)
- Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd (eitem 5)
- Matthew Jenkins, Dirprwy Gyfarwyddwr, Partneriaethau a Chydweithredu (eitem 5)
- Jonathan Scourfield, Cynghorydd Polisi Arbenigol, Gwasanaethau Cymdeithasol (eitem 5)

Ymddiheuriadau:

- Ken Skates AC

Eitem 1: Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol a materion sy'n codi

1.1 Cymeradwyodd y Cabinet y cofnodion ar gyfer 7 a 14 Ionawr.

1.2 Nodwyd y byddai angladd y diweddar Steffan Lewis AC yn cael ei gynnal ddydd Gwener.

Eitem 2: Eitemau'r Prif Weinidog

Brexit

2.1 Cyfeiriodd y Prif Weinidog at y ffaith bod Prif Weinidog y DU wrthi'n gwneud datganiad i Senedd San Steffan ynghylch y camau nesaf ym mhroses Brexit, ar ôl i Lywodraeth y DU gael ei threchu ar y 'bleidlais ystyrllon' yr wythnos flaenorol. Roedd yn ymddangos bod Prif Weinidog y DU newydd gyhoeddi na fyddai ei Llywodraeth

yn bwrw ymlaen â'r ffioedd arfaethedig i wladolion yr UE a oedd am gael statws preswlydd sefydlog yn y DU, ond serch hynny byddai'n bwysig i Lywodraeth Cymru ystyried yn ofalus gynnwys ei datganiad.

2.2 Nodwyd bod aelodau meinciau cefn yn Nhŷ'r Cyffredin yn paratoi gwelliannau ac yn cynnig Biliau er mwyn caniatáu i'r Senedd gael rheolaeth dros broses Brexit.

2.3 Roedd y Prif Weinidog wedi siarad â Phrif Weinidog y DU ar ôl y bleidlais yn San Steffan yr wythnos gynt, ac roedd yn bosibl y gellid trefnu cynnal cyfarfod tairochrog, a fyddai'n cynnwys Prif Weinidog yr Alban, ddydd Mercher yn Llundain. Hefyd byddai cyfarfod o'r Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r UE) yn cael ei gynnal yng Nghaerdydd ddydd Iau.

Cynghorwyr Arbennig

2.4 Croesawodd y Prif Weinidog Clare Griffiths yn ei rôl fel Cynghorydd Arbennig yn Llywodraeth Cymru. Byddai Clare yn darparu cymorth i'r portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

2.5 Byddai hysbysebion ar gyfer y swyddi cynghorydd arbennig eraill yn cael eu cyhoeddi'n nes ymlaen y diwrnod hwnnw. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau oedd 15 Chwefror.

Eitem 3: Busnes y Llywodraeth yn y Cyfarfod Llawn

3.1 Trafododd y Cabinet grid y Cyfarfod Llawn, gan nodi y byddai angen i'r holl Weinidogion fod yn y Siambr ar gyfer y datganiadau a oedd yn ymwneud â'r UE.

Eitem 4: Y newyddion diweddaraf am Brexit

4.1 Rhoddodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet ynghylch materion sy'n gysylltiedig â Brexit, gan gyfeirio at welliant diweddaraf Dominic Grieve. Byddai'r gwelliant hwn, pe bai'n cael ei gytuno, yn caniatáu i gynnig gael ei gyflwyno gan leiafrif o 300 o aelodau seneddol o o leiaf pum plaid, gan gynnwys deg o aelodau o feinciau'r Ceidwadwyr, er mwyn ei drafod fel yr eitem gyntaf o fusnes y diwrnod canlynol yn Nhŷ'r Cyffredin.

4.2 Byddai'r gwelliant hwn yn rhoi'r pŵer i'r Senedd gynnal pleidleisiau dangosol o ran pa opsiynau a fyddai'n cael eu cefnogi gan fwyafrif, sef opsiynau megis cytundeb fel cytundeb Norwy, neu gynnal ail refferendwm. Fel yr oedd y sefyllfa ar hyn o bryd, byddai angen mwyafrif yn y Senedd i wthio dadl o'r fath yn ei blaen.

4.3 Dywedwyd bod cyfarfod o Grŵp Gweinidogol y Gweinyddiaethau Datganoledig ar gyfer yr Amgylchedd, Amaethyddiaeth a Physgodfeydd wedi ei gynnal yn Llundain yn ystod yr wythnos diwethaf, a bod Gweinidogion Addysg Uwch o bob rhan o'r DU wedi cyfarfod yng Nghaerdydd i drafod materion a oedd yn ymwneud â Brexit.

4.4 Roedd Paratoi Cymru / Preparing Wales, sef platfform digidol cynhwysfawr sengl y Llywodraeth i helpu i baratoi ar gyfer Brexit, wedi mynd yn fyw ar 18 Ionawr.

4.5 O ran y busnes sy'n gysylltiedig â Brexit yn y dyfodol agos, byddai dadl a phleidlais yn San Steffan, ar gynnig newydd a gwelliannau dethol Llywodraeth y DU, yn cael eu cynnal ar 29 Ionawr, a byddai Fforwm Gweinidogol ar negodiadau'r UE yn cael ei gynnal yn Edinburgh ar 31 Ionawr.

4.6 Trafododd y Gweinidogion sut y dylai'r Cynulliad ymateb i'r ddadl nesaf a phleidleisio yn y Senedd, gan nodi bod cynigion i ohirio'r Gorchmynion Sefydlog er mwyn caniatáu i'r Llywodraeth gynnal dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 30 Ionawr.

Eitem 5: Y Bil Hawliau Pobl Hŷn arfaethedig

5.1 Cyflwynodd y Dirprwy Weinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y papur, a oedd yn gofyn i'r Cabinet ystyried a ddylai Llywodraeth Cymru gefnogi Bil Aelod ar Hawliau Pobl Hŷn.

5.2 Roedd pawb yng Nghymru yn haeddu bod eu hawliau'n cael eu cydnabod a'u bod yn cael eu gweithredu, ac roeddent yn deall y bwriad y tu ôl i'r ddeddfwriaeth. Fodd bynnag mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn canolbwyntio ar yr angen i sicrhau bod hawliau'n cael eu troi'n realiti ers peth amser, a chafodd cynllun gweithredu sy'n benodol i bobl hŷn ei gytuno â'r Comisiynydd Pobl Hŷn blaenorol yn 2018.

5.3 Roedd hawliau pobl hŷn eisoes wedi eu hymgorffori yn Ndeddf Hawliau Dynol y DU, ac roedd oed yn un o'r nodweddion gwarchoddedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Yn benodol, roedd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol roi sylw dyledus i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn, gan sicrhau bod pobl hŷn yn cael llais cryfach mewn unrhyw drefniadau gofal yr oedd eu hangen arnynt.

5.4 Fodd bynnag, roedd grŵpiau eraill yn ein cymdeithas a oedd yn dioddef anghydraddoldeb, ac a oedd yn haeddu gweld eu hawliau'n cael eu troi'n realiti. Er enghraifft, bu galwadau i ddeddfu mewn perthynas â'r Confensiwn ar Gael Gwared ar Bob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod, yn ogystal ag ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl yng nghyfraith Cymru. Ond, drwy weithredu fesul achos byddai perygl o weithredu mewn modd tameidiog mewn perthynas â deddfwriaeth.

5.5 Byddai dull gweithredu mor anwastad yr un mor ddryslyd i gyrrff cyhoeddus, a fyddai'n gorfod cyflawni'r dyletswyddau, ag y byddai i bobl Cymru. Felly, roedd angen gweithredu mewn modd mwy holistaidd wrth ddeddfu mewn perthynas â hawliau dynol, ac argymhellwyd y dylai'r Cabinet wrthwynebu'r ddeddfwriaeth arfaethedig.

5.6 Roedd rhywfaint o bryder na fyddai'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn gwneud dim mwy na rhoi dyletswydd ychwanegol ar gyrrff cyhoeddus yng Nghymru, heb wneud unrhyw beth tuag at gorfodi hawliau. Hefyd roedd realiti ymarferol y byddai angen addysgu'r cyhoedd ynghylch y newidiadau.

5.7 Roedd yn bwysig datblygu dull gweithredu cydgysylltiedig ar gyfer ymdrin â hawliau dynol, a fyddai'n ystyried y cyd-destun Cymraeg, gan gynnwys gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), a byddai angen i unrhyw ddeddfwriaeth fod yn effeithiol, yn ymarferol o ran cael ei gorfodi, ac yn gallu

amddiffyn hawliau pawb yng Nghymru.

5.8 Roedd y Gweinidogion yn cydnabod bod dull gweithredu amgen yn yr arfaeth, a fyddai hefyd yn adlewyrchu sut y byddai'r Llywodraeth yn parhau i amddiffyn hawliau dynol pe bai Gweinidogion y DU yn ceisio diddymu'r Ddeddf Hawliau Dynol.

5.9 Roedd y gwaith wedi dechrau o ran cychwyn y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol sy'n deillio o ran un o'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ac ymchwilio i'r opsiynau ar gyfer ymgorffori rhagor o Gonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig yng Nghyfraith Cymru.

5.10 Ar 6 Chwefror, byddai seminar yn cael ei gynnal gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Comisiynwyr, academyddion, a'r Trydydd Sector, er mwyn dechrau'r broses o ymgynghori ar fodolau deddfwriaethol, a byddai Aelodau'r Cynulliad hefyd yn cael eu hannog i fod yn bresennol.

5.11 Cytunodd y Cabinet y dylai'r Gweinidogion wrthwynebu'r ddeddfwriaeth arfaethedig, gan fod y Llywodraeth eisoes yn ystyried cynigion mwy trylwyr a oedd yn mynd y tu hwnt i'r ddyletswydd sylw dyledus, a chan na fyddai'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn arwain at unrhyw wahaniaeth ymarferol i bobl hŷn yng Nghymru.

5.12 Cymeradwyodd y Cabinet y papur.

**Ysgrifenyddiaeth y Cabinet, Pwyllgorau a'r Cyfarfod Llawn
Ionawr 2019**